**PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**IS-BWYLLGOR Y CABINET AR FATERION YR HINSAWDD**

Cofnodion o gyfarfod rhithwir y Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd a gynhaliwyd Dydd Mercher, 27 Medi 2023 am 2.00 pm

Cafodd y cyfarfod yma ei recordio, ac mae modd gweld y manylion yma

**Roedd y Aelodau Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd canlynol yn bresennol**

Y Cynghorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cynghorydd A Crimmings Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd M Norris

**Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo’r Cyngor
Ms LLawson, Rheolwr Cyflawniad
Ms E Dean, Cynlluniwr Amgylchedd
Mr A Roberts, Materion Eiddo'r yngor
Mr R Wistow, Ecolegydd
Mr S Williams, Pennaeth Materion Buddsoddi Strategol
Mr C Davies, Rheolwr Materion Ymgynghori a Pholisïau Corfforaethol

**Ymddiheuriadu am absenoldeb**

Y Cynghorydd W Owen

**1 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, ni wnaethpwyd unrhyw ddatganiadau mewn perthynas â'r agenda.

**2 Cofnodion**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Mawrth 2023 yn rhai cywir.

**3 Rhaglen Waith Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-24**

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu Rhaglen Waith 2023-24 Is-bwyllgor y Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd i'r Aelodau.

Pwysleisiodd y Cadeirydd fod Aelodau'n awyddus iawn i fynychu ymweliadau

safle. Cadarnhaodd Aelod eu bod nhw'n croesawu'r awgrym o gynnal ymweliadau safle ledled y Fwrdeistref Sirol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau**:**

1. Cymeradwyo Rhaglen Waith Is-bwyllgor y Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar gyfer Blwyddyn y Cyngor 2023-2024, fel sydd ynghlwm yn Atodiad 1;

2. Cytuno i gynnal ymweliadau safle â'r lleoliadau sydd wedi'u nodi isod yn ystod Blwyddyn y Cyngor:
   - Achlysur lansio Gwobrau Eco Ysgolion;
   - Ysgol Gynradd Gymraeg Awel Taf, Rhydfelen;
   - Soaring Supersaurus, Pen-rhys;
   - Canolfan Calon Taf; a
   - Croeso i'n Coedwig

3. Derbyn adroddiad pellach yn y dyfodol gan y Cadeirydd mewn perthynas â chanfyddiadau'r ymweliadau safle yma.

**4 'Hinsawdd Ystyriol RhCT' - Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd 2022-2025.**

Cyflwynodd y Rheolwr Cyflawniad y Strategaeth Mynd i'r Afael â Newid yn yr Hinsawdd (2022-2025) 'Hinsawdd Ystyriol RhCT' i'r Aelodau.

Croesawodd y Cadeirydd diwyg yr adroddiad gan nodi ei bod hi'n hoff iawn o'r dolenni sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad. Nododd y Cadeirydd y byddai hi'n hoffi gweld mwy o wybodaeth am y broses gaffael yn yr adroddiadau chwarterol, a hynny gan fod caffael yn rhan fawr o waith Lleihau Carbon y Cyngor.

Cafwyd trafodaethau pellach a nododd Aelod fod yr adroddiad yn cyd-fynd â Chynllun Corfforaethol y Cyngor a bod yr adroddiad yn tynnu sylw at faint o waith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor er mwyn cyflawni'i dargedau. Cyfeiriodd yr Aelod at yr Adroddiad am Gerbydau Trydan a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Is-bwyllgor ym mis Rhagfyr. Gofynnodd Aelod a fyddai modd gwahodd y Grid Cenedlaethol i'r cyfarfod i weld pa gynlluniau sydd gyda nhw ar gyfer y dyfodol. Cytunodd y Cadeirydd fod yr awgrym yma'n un da a chytunodd Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor i gyfathrebu â'r Grid Cenedlaethol i drefnu amser cyfleus.

Roedd Aelod arall wedi croesawu'r adroddiad gan nodi ei bod hi'n ddefnyddiol iawn cael yr holl wybodaeth mewn un lle a byddai'r ddogfen yma'n gymorth mawr i'r cyhoedd. Cytunodd Aelod arall a chroesawodd y diwyg a gafodd ei defnyddio. O ran y Grid Cenedlaethol, awgrymodd Aelod fod y Cadeirydd yn cynnal cyfarfod gyda Swyddogion cyn y cyfarfod ym mis Rhagfyr er mwyn canfod beth yw'r materion allweddol fel bod modd i ni herio'r Grid Cenedlaethol.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau:

1. Trafod yr wybodaeth oedd wedi ei chynnwys yn yr adroddiad;
2. Gwahodd y Grid Cenedlaethol i gyfarfod dilynol y Pwyllgor yn rhan o Raglen Waith yr Is-bwyllgor; a
3. Nodi'r potensial i ymgorffori ymateb y Cyngor i'r Newid yn yr Hinsawdd

ymhellach ym musnes y Cyngor, a hynny'n rhan o waith datblygu Cynllun Corfforaethol newydd y Cyngor;

**5 'Byd Natur ar Stepen eich Drws' - Diweddariad ar hynt y prosiect Tirwedd Fyw yn Rhondda Cynon Taf**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu 'Byd Natur ar Stepen eich Drws' sy'n rhoi gwybod i Aelodau am y gwaith sydd wedi'i gyllido gan grantiau Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a gafodd ei gyflawni yn 22/23 ac sydd wedi'i gynllunio ar gyfer 2024/25.

Cafwyd trafodaethau pellach a chroesawodd y Cadeirydd yr adroddiad, gan nodi bod Aelodau'r Cabinet eisoes wedi cwrdd â'r Prentisiaid, ond, awgrymodd y Cadeirydd y byddai'n gyfle da i Aelodau'r Cabinet gwrdd â'r Prentisiaid unwaith eto yn rhan o ymweliad safle. Cytunodd Aelod arall, a nododd fod y Pwyllgor wedi cwrdd â'r swyddogion graddedig a byddai'n ddefnyddiol i'r Pwyllgor gwrdd â'r Prentisiaid.

Cafwyd trafodaethau pellach a nododd Aelod fod gan y Fwrdeistref Sirol nifer o safleoedd natur gwych. Cyfeiriodd yr Aelod at byllau Carnetown a nododd pa mor falch oedd ef i weld y rhain ar y rhestr. Gofynnodd yr Aelod a fyddai modd i Swyddogion roi diweddariad pellach, ar ôl i'r ardal gael eu hasesu, er mwyn rhannu gwybodaeth gyda'r gymuned. Cytunodd y Swyddogion i adrodd yn ôl i'r Aelodau wrth i'r ardal gael ei datblygu.

Roedd Aelod wedi canmol y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud gyda swyddogion graddedig a phrentisiaid, gan nodi y bydd hyn yn rhan fawr o waith cynllunio a datblygu, a dymunodd yr Aelod ganmol yr adroddiad manwl.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** Aelodau:

1. Trafod y cynnydd sydd i'w weld yn yr adroddiad, y gwariant sydd wedi'i gynllunio a sut mae hyn yn cyfrannu at yr amcan ehangach o ran datblygu prosiect Tirweddau Byw ledled RhCT;
2. Trefnu ymweliad safle i roi cyfle i'r Pwyllgor gwrdd â'r Prentisiaid newydd sy'n gweithio ym maes Bioamrywiaeth.

**6 Materion Brys**

Doedd dim mater brys i'w drafod.

**Daeth y cyfarfod i ben am 2.30 pm**

**Y Cynghorydd C Leyshon**
**Cadeirydd.**